

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Chwefror 2017

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Newidiadau i'r Drefn Codi Ffioedd - Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol dan Rannau 4 a 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(i'w gwblhau gan Uned y Gymraeg):</i>				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen :	Alison James				
Dyddiad:	Chwefror 2017				
Arweinydd polisi	Gareth Griffiths				
Manylion cyswllt:	Talu am Ofal Partneriaethau a Chydweithredu Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru Ffôn: Caerdydd (029) 2082 5256				
Math o Raglen/Prosiect ☐ Polisi ☒ Deddfwriaeth ☐ Grant ☐ Newid busnes ☐ Seilwaith ☐ Adeiladu, Cyfalaf ☐ TGCh ☐ Arall (Noder isod) ☐ Prosiect neu raglan ☐ Ymchwil, gwerthusiad ☐ Gwasanaethau ☐ Contractau, tendrau					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25k - £49k	£50 - £249K	£250K - £1m	Mwy na £1m	
☐	☐	☐	☐	☒	
O'r uchod, rhwch fanylion os oes unrhyw gostau a nodwyd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
☐	☐	☐	☐	☒	☐
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect: Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Eglurodd Gweinidogion Cymru eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith					

statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer 6 Ebrill 2016, pan fyddai'r Ddeddf yn cael ei gweithredu. Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Mae'r tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y mae gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithredu o'i fewn ers mis Ebrill 2016.

Cafodd rheoliadau ynghylch asesiadau ariannol, codi ffioedd, dewis o lety, taliadau gohiriedig ac adolygu dyfarniadau ynghylch ffioedd eu gwneud o dan yr adrannau perthnasol o Rannau 4 a 5 o'r Ddeddf, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Roedd y rhain wedi'u bwriadu i sicrhau, lle mae awdurdod lleol yn penderfynu arfer ei ddisgresiwn dan y Ddeddf i godi ffi ar berson am y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu neu'n eu trefnu ar ei gyfer, y defnyddir dull cyson a theg o gwblhau asesiad ariannol a dyfarnu ffi. Cyhoeddwyd cod ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol hefyd i gyd-fynd â'r rheoliadau.

Y rheoliadau a waned oedd:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau ynghylch Ffioedd) (Cymru) 2015.

Oherwydd newidiadau o ran polisi, mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd, Asesiad Ariannol a Dewis o Lety yn cael eu diwygio. Mae'r ddwy set arall o Rheoliadau yr un fath ag yr oeddent yn wreiddiol. Daw'r newidiadau i rym a 10 Ebrill 2017.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Mae'r fframwaith codi ffioedd a weithredir dan y Ddeddf yn ceisio:

- cynnal gallu awdurdod lleol i godi ffioedd am y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu neu'n eu trefnu er mwyn cael arian i dalu am gostau'r rhain;
- sicrhau mai dim ond ar y rhai sy'n gallu fforddio talu y caiff ffioedd eu codi;
- sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu fforddio talu ffioedd yn cael y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt am ddim;
- sicrhau, lle codir ffioedd, bod hynny'n digwydd mewn modd cyson, teg a chyfiawn.

Mae'r newidiadau a gyflwynir yn awr yn ceisio:

- caniatáu i bobl sydd mewn gofal preswyl gadw mwy o'u cyfalaf, a pheidio'i ddefnyddio i ariannu'r gofal;
- caniatáu i bobl sydd mewn gofal preswyl sy'n cael ei ariannu gan eu hawdurdod lleol gadw rhagor o'u hincwm ar gyfer treuliau personol;
- caniatáu i awdurdodau lleol godi, os ydynt yn dymuno, hyd at £70 yr wythnos

am yr holl ofal amhreswyl y mae person yn ei dderbyn; • caniatâi i gyn-filwyr sy'n derbyn pesiynau anabledd rhyfel beidio â gorfod defnyddio'r rhain i dalu am eu gofal cymdeithasol.
Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried? a Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?
Cafodd nifer o opsiynau polisi ar gyfer gweithredu'r fframwaith asesiadau ariannol a chodi ffioedd eu hystyried. Caiff y rhain eu disgrifio'n fanwl yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'u hatodi wrth y rheoliadau perthnasol y cyfeirir atynt uchod. Roedd y rhain yn ystyried gweithredu effeithiau'r rheoliadau'n llawn i gyflwyno'r fframwaith a ragwelid, gweithredu set o reoliadau a oedd yn syml yn cyflwyno'r trefniadau presennol ar gyfer asesiadau ariannol a chodi ffioedd heb unrhyw newidiadau, neu beidio â gweithredu'r rheoliadau o gwbl. Pe na bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gwneud, mae'n bosibl y byddai'n rhaid i bobl sydd mewn gofal preswyl ddefnyddio cyfran uwch o'u hincwm i dalu am y gofal. O ran y rhai sydd mewn gofal preswyl ac mae'r awdurdod lleol yn eu cynorthwyo i dalu am y gofal hwnnw, byddai'r swm o'u hincwm y maent yn cael ei gadw ar gyfer eu treuliau personol yn llai. Mae'n bosibl y byddai'n rhaid i gyn-filwyr y mae angen gofal cymdeithasol arnynt ddefnyddio rhan o'u pensiwn anabledd rhyfel i dalu amdano. Yn olaf, byddai lefel y ffioedd y gallai awdurdodau lleol ei chodi am y gofal amhreswyl y mae person yn ei dderbyn yn llai, a byddai hynny'n rhoi pwysau ariannol ychwanegol arnynt i gyllido'r gofal hwn.
A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?
Rhoddwyd ymrwymiad gan y Gweinidog y byddai'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n tanategu'r Ddeddf yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg. O ganlyniad i hyn, caiff rheoliadau a chodau ymarfer a gyhoeddir dan y Ddeddf oll eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir ynddi, sy'n cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf 'r(h)oi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith)'. Mae egwyddorion allweddol "Mwy na geiriau" wedi cael eu sefydlu yn y Ddeddf, sef bod yn rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg os dynt yn dymuno. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â llawer o'r nodau yn "Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17". Mae'r rheoliadau a'r codau ymarfer mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer tri o'r nodau i wneud y canlynol: • cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned; • cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;

- gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion.

Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned

Un o brif amcanion y polisi yw hybu annibyniaeth unigolyn a sicrhau bod gan yr unigolyn ddealltwriaeth eglur, a'i fod yn meddu ar wybodaeth lawn, lle codir ffi am y gofal a'r cymorth y mae ar yr unigolyn eu hangen. Mae'n rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Hefyd, mae'r rheoliadau a'r cod yn sicrhau bod y rhai sy'n dymuno cael cyswllt ag awdurdodau lleol mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd trwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny, gan felly gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn bennaf.

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer ei swyddogaethau i geisio hybu llesiant unigolion, gan gynnwys dyletswydd i roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith). Mae hyn yn cryfhau'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i defnyddio i wella llesiant pobl ac ansawdd gofal a chymorth. Mae hyn yn ymestyn i sefyllfaoedd lle cynhelir asesiadau ariannol a lle codir ffioedd fel bod mwy o ddyletswydd ar y swyddogion hynny mewn awdurdod lleol sy'n gwneud hyn i ddefnyddio'r Gymraeg lle mae person yn gofyn am hyn.

Gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gynnwys o'r dechrau fel rhan o'r broses o gynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o'u gofal a'u cymorth, e.e. mae rhai pobl yn agored i niwed ac mae rhoi'r cyfle iddynt gael cyswllt trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu cyfrannu at gael gwared ar eu gorbryder. Cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae'r Ddeddf, a'r rheoliadau a'r cod mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd, yn darparu ar gyfer fframwaith decach a mwy cyfiawn ar gyfer codi ffioedd gyda'r gallu i rywun fynd trwy'r broses a honno'n cael ei chynnal yn Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith, gan ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a rhoi'r gallu iddynt ddefnyddio'r iaith yn eu hymwneud ag awdurdodau lleol os byddant yn dymuno. Bydd hyn yn amhrisiadwy i siaradwyr Cymraeg, yn enwedig y rhai sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Ni thybir y bydd y polisi'n cael unrhyw effeithiau anffafriol ar y Gymraeg.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae'r ffordd y mae'r rheoliadau a'r cod wedi cael eu drafftio'n golygu bod y Ddeddf, a'r rheoliadau a'r cod ar asesiadau ariannol a chodi ffioedd, yn berthnasol i'r holl bobl yng Nghymru ac arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr ac arnynt angen cymorth. Caiff y rheoliadau a'r cod eu tanategu gan egwyddorion y Ddeddf sy'n datgan bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd unrhyw unigolion sy'n cael asesiad ariannol gan awdurdod lleol ar gyfer ffi yn gallu cael yr asesiad hwn yn Gymraeg os byddant yn dymuno.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am roi'r Ddeddf ar waith roi ystyriaeth hefyd i safonau newydd y Gymraeg a hysbysiadau cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn hydref 2015, ac a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Amherthnasol

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Cafodd yr holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd a oedd yn ategu'r ymarfer ymgynghori gwreiddiol ynghylch y rheoliadau a'r cod ymarfer eu darparu'n ddwyieithog. Roedd hyn yn cynnwys:

- dogfennau ymgynghori;
- y cwestiynau ymgynghori;
- crynodeb gweithredol;
- crynodeb gweithredol ar gyfer plant a phobl Ifanc;
- crynodeb gweithredol hawdd i'w ddarllen.

Cafodd deunyddiau ar gyfer y gweithdai yn ystod digwyddiadau i randdeiliaid eu cynhyrchu'n ddwyieithog ond oherwydd natur dechnegol y rheoliadau asesiadau ariannol a chodi ffioedd cafodd y gweithdai eu darparu yn Saesneg yn unig.

Cafodd yr holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd a oedd yn ategu'r ymarfer ymgynghori ynghylch y newidiadau i'r rheoliadau a'r cod ymarfer sy'n cael eu cynnig nawr eu darparu'n ddwyieithog hefyd. Roedd hyn yn cynnwys:

- dogfennau ymgynghori;
- y cwestiynau ymgynghori;
- crynodeb gweithredol.

Oherwydd natur gyfyngedig y newidiadau sy'n cael eu cynnig nawr, ni chynhaliwyd digwyddiadau i randdeiliaid ar yr achlysur hwn.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad o Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Gan na chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol yn ystod yr asesiad effaith cychwynnol, ni chwblhawyd Offeryn Asesu Risgiau.

Mae'r polisi hwn yn rhoi'r cyfle i siaradwyr Cymraeg ymwneud ag awdurdod lleol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd. Mae hyn yn cynnwys darparu dogfennau y mae'n ofynnol iddynt eu cael, e.e. datganiad ynghylch unrhyw ffi a godwyd, yn Gymraeg os ydynt yn dewis. Gan hynny nid yw'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ond yn syml ymateb i ddymuniad y siaradwyr Cymraeg hynny i gyfathrebu yn Gymraeg. Nid yw'r newidiadau sy'n cael eu cynnig nawr yn newid y sefyllfa hon.

Effeithiau cadarnhaol:

Fel yr uchod.

Effeithiau negyddol:

Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Bydd gallu person i ymwneud ag awdurdod lleol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas ag asesiad ariannol a chodi ffioedd os yw'n dymuno yn cynyddu'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan awdurdodau. Bydd hefyd yn rhoi cyfle pellach i'r siaradwyr Cymraeg yr effeithir arnynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd. Hefyd, fel sgîl-effaith, bydd yn rhoi cyfle i swyddogion codi ffioedd awdurdodau lleol, sy'n siarad Cymraeg, ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd hyn yn cyfrannu at yr amcan polisi yn "Iaith fyw: iaith byw" sy'n ymwneud â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Yn 2011, fe gyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg adroddiad "Y Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol" a oedd yn nodi'r canlyniadau i bobl nad ydynt yn derbyn gofal yn eu dewis iaith. Roedd yr adroddiad yn datgan bod "tystiolaeth fyd-eang yn dangos effaith niweidiol rhwystrau ieithyddol ym maes gofal – diffyg mynediad at wasanaethau cymdeithasol; bodlonrwydd defnyddwyr; diffyg perthynas therapiwtig; anawsterau o ran cael cydsyniad; problemau gyda pharhad y gofal gan fod y defnyddiwr yn cael ei atgyfeirio o un asiantaeth at y nesaf; diffyg gofal o ansawdd; diogelwch defnyddwyr; statws iechyd y defnyddiwr; costau gofal – costau personol i'r defnyddiwr a chostau ariannol i'r gwasanaeth".

Mae '*Mwy na Geiriau*' yn cydnabod mai cyfrifoldeb adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu

anghenion ieithyddol defnyddwyr; a ddiffinnir fel y “cynnig gweithredol”. Mae’r ddeddfwriaeth a’r “Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol” a’r “Fframwaith Mesur Perfformiad” a gyflwynwyd yn sicrhau bod y ‘cynnig gweithredol’ yn rhan annatod o wella canlyniadau llesiant i bobl ac arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr ac arnynt angen cymorth. Mae Safonau newydd y Gymraeg yn cynnig ysgogiad newydd i gyrff sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus gofleidio’r Gymraeg a’i chynnwys fel rhan o wasanaethau pob dydd, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd.

Mae’r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn disgrifio’r broses; ond ychydig o dystiolaeth sydd o effaith gwasanaethau cymdeithasol ar fywydau pobl a pha un a yw’r gwasanaeth yn gwella canlyniadau i bobl. Felly mae bwlch sylweddol o ran dystiolaeth sy’n ategu ein dull i ddatblygu fframwaith canlyniadau sy’n mesur effeithiolrwydd gwasanaethau.

Bydd y dull hwn yn cynnwys mesurau a fydd yn monitro pa un a yw pobl yn cael gofal a chymorth yn Gymraeg a pha un a yw pobl yn cyfathrebu yn Gymraeg yn fwy eang gyda staff iechyd neu ofal cymdeithasol. Caiff y dull hwn ei nodi dan adran 145 o’r Ddeddf, y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae asesiad ar wahân wedi cael ei gwblhau ar gyfer y fframwaith hwn.

Beth yw’r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?

Cadarnhaol: ☒
 Negyddol: ☐
 Niwtral: ☐
 Anhysbys: ☐

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad

- | | |
|--|-------------------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:

Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella’r canlyniadau i’r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi’u mabwysiadu er mwyn lleihau’r effeithiau negyddol a chynyddu’r canlyniadau cadarnhaol:

Os ydych yn ymgysylltu neu’n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â’r Gymraeg?

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol dros gyfnod o 12 wythnos ynghylch y rheoliadau a’r cod ymarfer gwreiddiol mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd dan adrannau perthnasol o Rannau 4 a 5 o’r Ddeddf. Parodd y cyfnod ymgynghori o 8 Mai 2015 tan 31 Gorffennaf 2015.

Cafwyd cyfanswm o 61 o ymatebion, ac nid oedd yr un ohonynt yn codi unrhyw

faterion na phryderon mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn yr un modd ni chodwyd unrhyw faterion na phryderon yn unrhyw un o'r gweithdai i randdeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau a'r cod ymarfer. O ran y newidiadau arfaethedig, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol dros gyfnod o 5 wythnos ynghylch y newidiadau i'r rheoladau sy'n angenrheidiol er mwyn eu rhoi ar waith o dan yr adrannau perthnasol o Rannau 4 a 5 o'r Ddeddf. Parodd y cyfnod ymgynghori o 21 Rhagfyr 2016 tan 25 Ionawr 2017. Cafwyd cyfanswm o 24 o ymatebion, ac nid oedd yr un ohonynt yn codi unrhyw faterion na phryderon yn ymwneud â'r Gymraeg.
CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO
Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?
Ni chodwyd unrhyw faterion na phryderon mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y broses ymgynghori wreiddiol na'r un ddilynol a gynhaliwyd yn ddiweddar.
Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?
Mae'r Deddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion i fonitro swyddogaethau o dan y Ddeddf a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chyrff eraill. Gall Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn adrodd ar eu dyletswyddau o ran gweithredu'r rheoliadau hyn. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y diwygiadau i'r rheoliadau gan gynnwys eu heffaith ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod ymwneud derbynyddion gofal a chymorth ag awdurdodau lleol wedi i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith.
Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?
Fel uchod.
Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg
Dim.

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

Mae'r polisi hwn yn effeithio ar y Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.

Enw:

Gareth Griffiths

Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Dyddiad (au):

20 Chwefror 2017

Dyddiadau Adolygu Arfaethedig:

- Monitro parhaus
- Adolygu gweithrediad y rheoliadau a'r cod ymarfer ar ôl Ebrill 2018.

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu